# Cymhwyso Arloesedd a Arweinir gan Ddylunio i Wella Ymchwil a Datblygu wedi'i Gyd-greu yn y Gymuned

Gaston Welisch, Prifysgol Glasgow &
Ysgol Gelf Glasgow

# CIP Astudiaeth Achos

Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

© 2024. Mae'r gwaith hwn wedi'i drwyddedu o dan
CC BY-NC-SA 4.0

I gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau Creadigol AHRC ewch i www.creativecommunities.uk/

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y DU (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) ac fe'i cynhelir ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.



# Crynodeb

Fel Ymarferydd Arloesi Cymunedol (CIP), cefnogais fenter [Catalydd Partneriaeth y Celfyddydau a'r Dyniaethau](), sef menter traws-sector a lansiwyd gan Goleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau [ym Mhrifysgol Glasgow](). Mae'r Catalydd wedi'i gynllunio i ddod ag ymchwil y tu allan i'r byd academaidd, gan hwyluso dysgu ar y cyd rhwng academyddion a rhanddeiliaid.

Roedd gan ymchwil CIP dri phrif nod, sef (1) asesu a damcaniaethu strwythur a dulliau'r Catalydd (2) ymchwilio, datblygu a threialu adnoddau ymgysylltu creadigol, a (3) cyd-ddatblygu Catalydd newydd a oedd yn canolbwyntio ar le gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd.

Mae'r Catalydd yn defnyddio dulliau sy'n cael eu harwain gan ddyluniadau i hybu cydweithio ar draws sectorau, gan gynnwys ymchwilwyr academaidd a phartneriaid mewn sefydliadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r Catalydd yn gweithredu fel rhaglen Cyfnewid Gwybodaeth, sy'n rhoi pwyslais ar gymunedau ymarfer ac arbenigedd. Yn fy rôl fel CIP, bûm yn cyfrannu dull ymarfer dylunio at y gwaith ymgysylltu creadigol hwn.



Mae gweithdai'n chwarae rhan ganolog ym methodoleg Catalyddion, gan hwyluso'r gwaith o nodi heriau allweddol, cyd-greu gweledigaethau ar gyfer y dyfodol, a datblygu strategaethau y gellir gweithredu arnynt. Trefnais sesiynau myfyrio gyda thîm ehangach y Catalydd, a arweiniodd at strwythur gweithdy 3 rhan, a rannwyd wedyn fel y Model 'Tair A' – Asedau, Ategu ac Amdani (Assets, Augment ac Action). Fe wnaeth y Model hwn ein helpu i ail-ddehongli'r broses a'r dull o gyd-greu ar gyfer y gweithdai dilynol mewn theori ac yn ymarferol.

Roedd prosiect Catalydd Govan Old yn rhan sylweddol o ymchwil CIP. Roedd yn canolbwyntio ar sefydlu model cynaliadwy o fodolaeth ar gyfer Eglwys Blwyf Govan Old – safle hanesyddol yn Ne Glasgow sy'n dyddio'n ôl i'r 9fed ganrif. Roedd hyn yn adeiladu ar y berthynas bresennol â Phrifysgol Glasgow drwy roi cyfle i gydweithio â'r archeolegydd Stephen Driscoll. Edrychodd y prosiect ar sut y gallai treftadaeth ac adnoddau cyfoethog yr ardal helpu i fynd i'r afael ag anghenion presennol ei chymunedau a'i phobl.

Creative Communities | UKRI Arts and Humanities Research Council | Northumbria University NEWCASTLE

# Cyflwyniad

Nod fy ymchwil fel CIP oedd integreiddio arloesedd drwy ddylunio o fewn gwaith ymchwil a datblygu sy'n cael ei gyd-greu ar draws sectorau.

**Roedd gan fy rôl dri phrif nod:**

1. **Asesu a damcaniaethu'n atblygol strwythur y Catalydd a'i ddulliau**
2. **Cyflwyno a threialu adnoddau creadigol**
3. **Cyd-ddatblygu Catalydd newydd a oedd yn rhoi pwyslais ar le gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd**

Mewn cydweithrediad â'r Cymrawd Arweinyddiaeth Arloesi, Dr. Michael Pierre Johnson, fe wnes i gynllunio adnoddau a gweithdai ymgysylltu gweledol, diriaethol a rhyngweithiol, cyn dadansoddi'r canfyddiadau a chynhyrchu adroddiadau, gan ddogfennu'r gweithdy cyd-greu drwy luniau ar yr un pryd.

Rhaglen cyfnewid gwybodaeth dan arweiniad Prifysgol Glasgow mewn partneriaeth ag Ysgol Gelf Glasgow yw'r Catalydd. Mae'n ceisio pontio'r byd academaidd a rhanddeiliaid mewn sectorau allweddol, gan hwyluso dysgu ar y cyd a chymhwyso ymchwil y tu hwnt i ffiniau academaidd.

Un elfen ganolog o waith y CIP oedd Catalydd Govan Old, a oedd yn seiliedig ar le, sy'n astudiaeth achos ar gyfer addasu dulliau cydweithredol i gyd-destun lleol sy'n seiliedig ar safle. Mae'r prosiect hwn yn archwilio treftadaeth hanesyddol a diwylliannol Eglwys Blwyf Govan Old, gan drafod sut i drawsnewid yr eglwys yn ganolfan gymunedol (ac yn benodol i ddarparu addysg ac ymchwil treftadaeth), a chefnogi model economaidd cynaliadwy sy'n integreiddio treftadaeth ag anghenion cyfoes.

Mae'r tîm rhyngddisgyblaethol craidd sy'n cyflwyno rhaglen y Catalydd yn cynnwys Dr. Lindsay Middleton a Dr. Neil McIntyre (cymdeithion Cyfnewid Gwybodaeth), Dr. Fraser Rowan (Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi) a Dr. Kirstie Wild (Pennaeth Strategaeth Ymchwil a Gweithrediadau) o Brifysgol Glasgow, yn ogystal â Dr. Johnson o Ysgol Arloesi a Thechnoleg Ysgol Gelf Glasgow.

Yng nghyd-destun ymchwil CIP, rwy'n defnyddio'r gair 'cymuned' i ddisgrifio rhwydwaith amrywiol o bobl a sefydliadau sy'n cael eu cysylltu gan ddiddordebau, arbenigedd neu safbwyntiau cyffredin mewn sector neu fater penodol. Mae hyn yn cynnwys academyddion a rhanddeiliaid yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn ogystal ag unigolion sydd â phrofiad proffesiynol, profiad bywyd, a/neu gysylltiad uniongyrchol â'r mentrau yn y maes, neu sy'n syml iawn yn awyddus i gyfrannu. Gall cyfansoddiad a ffocws y cymunedau hyn esblygu'n ddeinamig ar sail y sector neu'r cyd-destun penodol sy'n cael sylw ym mhob Catalydd. Mae'r cymunedau creadigol hyn cael eu dwyn ynghyd i gyd-greu ymatebion i themâu fel treftadaeth ddiwylliannol ddigidol, bwyd, ac iechyd meddwl a lles.

Mae'r 21 o bartneriaid a chyfranogwyr gwahanol sy'n ymwneud â Govan Old yn cynnwys cynrychiolwyr heb fod yn academaidd o Ymddiriedolaeth Treftadaeth Govan, Govan Workspace, Glasgow Life, GalGael, y Riverside Museum, Historic Environment Scotland, BBC Scotland, Cymdeithas Dai Linthouse, a Llywodraeth yr Alban.

# Cyd-destun yr Ymchwil

Mae menter y Catalydd yn brosiect traws-sector a gynlluniwyd i ddod ag ymchwil allan o'r brifysgol ac i'r gymdeithas, gan greu cyfleoedd ystyrlon i gydweithio rhwng ymchwilwyr academaidd, mudiadau'r trydydd sector, a rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae pob catalydd yn mynd i'r afael â thema a ddewiswyd drwy gyfres o dri gweithdy, gyda 20-30 o bartneriaid a chyfranogwyr yn gweithio gyda'i gilydd i nodi heriau ac asedau allweddol, i gyd-greu gweledigaethau ar gyfer y dyfodol ac i ddatblygu strategaethau i weithredu arnynt.

Cyn y Catalydd, roedd mentrau'r IAA yn canolbwyntio'n bennaf ar fodelau a oedd yn seiliedig ar gymwysiadau, fel prosiectau un-tro seiliedig ar anghenion ar gyfer creu effaith.

Cyflwynwyd y Catalydd i greu rhwydweithiau hirdymor ar draws gwahanol sectorau, gan gyfateb ymchwil academaidd ag ymarferwyr a sefydliadau heb fod yn academaidd i gyfnewid gwybodaeth, syniadau ac argraffiadau.

**Wrth galon y Catalydd mae dulliau ac offer cyfranogol sy'n cael eu harwain gan ddyluniad ac sy'n hwyluso prosesau ymgysylltu a chydweithio. Mae'r defnydd o fapio Arloesedd, wedi'i lywio gan Theori Actor-Rhwydwaith, yn gwneud safbwyntiau a rhyng-gysylltiadau gwahanol actorion a'u swyddogaethau wrth fynd i'r afael â heriau allweddol yn fwy penodol, gan gefnogi trafodaethau ar y cyd er mwyn canfod cyfleoedd i gydweithio.**




*Detail of y Map Arloesi, fel y'i defnyddiwyd yn y Catalydd Iechyd Meddwl a Lles © Gaston Welisch*

Cyn cael fy mhenodi'n CIP, roedd menter y Catalydd wedi cynnal dwy rownd o weithdai, gyda phob un yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau penodol a oedd yn cael eu gyrru gan sector. Fe wnaeth y rôl fy ngalluogi i ddatblygu fy mhrofiad a'm gwybodaeth o'r gweithdai hyn, ac i ymwneud mwy â'r gwaith o gyflwyno catalydd iechyd meddwl a lles. Roedd hwnnw'n edrych ar werth y celfyddydau a'r dyniaethau wrth fynd i'r afael ag iechyd meddwl a lles rhwng ymarferwyr meddygol, academyddion a gweithwyr proffesiynol creadigol.

Defnyddiwyd model y Catalydd i ganolbwyntio ar Eglwys Blwyf Govan Old, safle'r prosiect a ddewiswyd ar gyfer ymchwil CIP. Yn hanesyddol, roedd Govan Old yn ganolfan eglwysig bwysig. Mae'n dyddio'n ôl i'r 9fed ganrif ac mae ganddi gasgliad cyfoethog o gerfiadau canoloesol cynnar, sef Cerrig Govan.

Heddiw, mae'r eglwys yn Ardal Arloesi Glan yr Afon Glasgow (GRID), ardal sydd wedi denu buddsoddiad mawr gyda'r nod o ysgogi cydweithio rhwng diwydiannau a'r byd academaidd.

**Mae'r cyfosodiad hwn o dreftadaeth a buddsoddiad cyfoes yn gwneud Govan Old yn ganolbwynt delfrydol i ymchwilio sut y gall safleoedd treftadaeth gyfrannu'n ystyrlon at adfywio cymunedol.**

Roedd amlygrwydd eglwysig Govan hefyd yn ymestyn i'w pherthynas â Phrifysgol Glasgow. Roedd y cysylltiad hanesyddol hwn yn atgyfnerthu sylfaen ariannol y brifysgol drwy gyfeddiant plwyf Govan yn yr 16eg ganrif. Mae'r cysylltiad hanesyddol hwn yn awgrymu bod "dyled ysbrydol", sy'n dal yn berthnasol heddiw.

**GRID (Ardal Arloesi Glan yr Afon Glasgow)** yw'r cyd-destun ehangach ar gyfer Catalydd Govan Old. Dan arweiniad Prifysgol Glasgow, Scottish Enterprise, a Chyngor Dinas Glasgow, mae GRID yn ailddatblygiad gwerth £1 biliwn ar gampws Gorllewinol (West End) y Brifysgol.

Ochr yn ochr â GRID, bwriad adeiladu pont newydd Govan-Partick yw ailgysylltu Govan a Patrick, gan adfer cyswllt hanesyddol (sydd o bosibl yn dyddio'n ôl i'r un gwreiddiau canoloesol cynnar a ddadorchuddiwyd gan Driscoll) a ddaeth i ben ar ôl i wasanaeth Fferi Govan ddod i ben.

Mae'r seilwaith hwn yn allweddol ar gyfer hybu Govan a Govan Old fel cyrchfannau diwylliannol a thwristaidd, ac yn eu gwneud yn rhan o rwydwaith cydlynol o atyniadau sy'n cynnwys Canolfan Wyddoniaeth Glasgow a'r Amgueddfa Drafnidiaeth.

**Fodd bynnag, mae'r mewnlifiad posibl o ymwelwyr yn codi pryderon ynghylch capasiti cyfleusterau a gwirfoddolwyr lleol. Mae risg yn gysylltiedig â'r llif sylweddol o gyfalaf i'r prosiectau hyn, sef y risg o symboleiddiaeth a boneddigeiddio. Fel y nododd un cyfranogwr o Govan, "buddsoddi yn y bobl, nid dim ond y seilwaith". Mae pryder gwirioneddol nad yw manteision datblygu'n rhoi hwb digonol i drigolion lleol, ac yn hytrach yn eu disodli.**

Rôl Prifysgol Glasgow yn GRID, yn ôl yr Athro Driscoll, yw defnyddio gweithgareddau academaidd i sbarduno adfywio lleol. Mae Govan Old yn sefyll allan fel safle hygyrch, yn rhannol oherwydd ei leoliad canolog a'i natur agored gan nad yw'n gysylltiedig ag Eglwys yr Alban erbyn hyn. Mae'r natur agored hwn yn ei gwneud yn fwy croesawgar i bobl â gwahanol ffydd, ac yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i greu canolfan ar gyfer cydlyniant cymunedol. O ganlyniad, "mae'n bwysig iawn gwneud Govan Old yn esiampl o'r hyn y gall ysgolheictod ac ymgysylltu â'r gymuned a'r sector ysgolheictod ei gyflawni".

# CIP Gweithgareddau

Mae fy ngwaith ymchwil wedi canolbwyntio ar 4 maes yng Nghatalydd Govan Old:

- **Dull gweithredu**: adolygu a chyfrannu at strwythur a dulliau'r Catalydd ar sail y wybodaeth a gynhyrchir drwy ymchwil CIP, yn benodol drwy ymgorffori dulliau astudio ar gyfer y dyfodol.
- **Dulliau Dylunio**: profi a mireinio dulliau dylunio newydd, gan gynnwys fframio perfformiadol a dulliau seiliedig ar le, i wella'r rhyngweithio a'r ymgysylltu yn y gweithdai.
- **Lledaenu**: adrodd straeon a dadansoddi gwybodaeth allweddol drwy gynhyrchu dogfennau ac adroddiadau, sydd wedi cyfrannu at rannu cynnydd y prosiect â chyfranogwyr a rhanddeiliaid**.**
- **Capasiti**: cyfrannu at fyfyrio ac arloesi parhaus mewn arferion ymgysylltu creadigol.

Dechreuodd fy ymchwil CIP gyda "Sesiwn Hunaniaeth" a helpodd y tîm i fyfyrio ar yr hyn sy'n gwneud Catalydd. Yr ethos, fel y disgrifiwyd yn ystod y sesiwn, yw cofleidio chwilfrydedd, cydweithio a dos o naïfrwydd. Mae hyn yn golygu cynnal agwedd agored a chwilfrydig, a dysgu gan eraill. Mae'n ffordd o ymdrin â phroblemau gyda safbwyntiau newydd, hyd yn oed os yw'n golygu cydnabod yr hyn nad ydym yn ei wybod.

**Model y Tair A**



Er mwyn deall y Catalydd yn well a rhoi cyd-destun iddo, cydweithiais â'r tîm i gael gwell eglurder ynghylch ystyr 'proses' a 'gwerth'. Arweiniodd hyn at y cysyniad o Fodel y Tair A – fframwaith sy'n deillio o strwythur tair rhan y tri gweithdy cyntaf y Catalydd, a gyflwynais fel a ganlyn: (map) Asedau, Ategu ac Amdani.

Ochr yn ochr â'r tair 'A', ceir pedair 'r' bach – neu lwybrau perthynol – sy'n cynrychioli elfennau sydd ddim mor amlwg i gyfranogwyr, y 'pibellwaith' a'r ymdrechion i feithrin perthynas sy'n gwneud y gweithdai a'r rhwydweithio'n bosibl. Mae'r llwybrau perthynol yn cyfleu dysgu allweddol gan gydweithwyr Prifysgol Glasgow ac fe'u cyflwynir yma i ddarparu'r cyd-destun ehangach ar gyfer gwaith CIP, a'u potensial i gynnwys dulliau dylunio yn y dyfodol.

**R1 ac R2: 'Pibellwaith' cyn y gweithdy**

**Perthnasedd a dewis thema:** Mae'r themâu a ddewisir ar gyfer pob catalydd yn cael eu gyrru gan y cryfderau a'r diddordebau allweddol yng Ngh











oleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Mae hyn yn cynnwys nodi meysydd lle gellir defnyddio arbenigedd presennol i fynd i'r afael â materion sector perthnasol. Gellir tynnu cymariaethau â dulliau sy'n seiliedig ar asedau.

**Recriwtio a gwahoddiadau:** Mae recriwtio'n edrych yn benodol ar rwydweithiau presennol i nodi rhanddeiliaid allweddol a chyfranogwyr posibl. Defnyddir ymchwil desg ac argymhellion i ddod o hyd i randdeiliaid perthnasol ychwanegol. Cynhelir gwaith maes drwy e-bost, gyda chynigion ar gyfer galwadau neu gyfarfodydd wyneb yn wyneb i gyflwyno gwerth y catalydd. Mae'r dull personol hwn yn helpu i feithrin perthnasoedd ac egluro disgwyliadau.

**Y Tair A: Gweithdai'r Catalydd**

**Asedau:** Mae'r cam cyntaf yn canolbwyntio ar ddiffinio asedau, perthnasoedd a syniadau sy'n bodoli'n barod. Drwy weithgor cydweithredol, bydd cyfranogwyr yn mapio'r elfennau hyn ac yn trafod cynlluniau posibl iddynt gyd-fynd â chymunedau ehangach. Mae'r cam hwn yn llwyfan rhagarweiniol lle mae cyfranogwyr yn cwrdd â'i gilydd ac yn cyflwyno eu harferion a'u harbenigedd, yn aml drwy gyflwyniad cyflym, gan hwyluso'r dasg o adeiladu rhwydweithiau.

**Ategu:** Nod yr ail gam yw cysylltu'r weledigaeth gychwynnol â rhwydwaith ehangach o randdeiliaid. Drwy rannu syniadau am gasgliad o weledigaethau ar gyfer y dyfodol, mae'r gweithdy'n meithrin cysylltiadau ac yn cyd-greu naratif sy'n ceisio cyfleu dyheadau sy'n berthnasol i bawb. Nod y cam hwn yw rhannu syniadau ac adeiladu ar y wybodaeth gychwynnol a gasglwyd yn y cam Asedau.

**Amdani:** Mae'r cam olaf wedi'i neilltuo i fireinio'r gyd-weledigaeth yn gynllun gweithredu manwl neu gyfres o syniadau prosiect wedi'u mireinio. Drwy brosesau cyd-ddylunio, bydd y cyfranogwyr yn datblygu strategaethau a mentrau pendant i gael yr hyn sy'n ddymunol ar gyfer y dyfodol. Mae'r cam hwn yn canolbwyntio ar drawsnewid y syniadau cydweithredol a'r synergeddau yn gamau gweithredu a chanlyniadau diriaethol.

**R3 ac R4: 'Pibellwaith' ar ôl y gweithdy**

**Myfyrio:** Mae cynhyrchu adroddiadau a thrafod fel grŵp ar ôl pob sesiwn yn rhoi cyfle i gofnodi'r syniadau a'r hyn a ddysgwyd. Mae'r ymarfer myfyriol hwn yn helpu i fireinio dulliau a gwella catalyddion yn y dyfodol. Mae'r adroddiadau'n adnoddau i gyfranogwyr: maent yn arddangos canlyniadau ac yn hybu ymgysylltu parhaus.

**Cydnerthedd:** Mae gwybodaeth, argraffiadau a chyfleoedd ôl gatalydd yn cael eu rhannu drwy restr bostio bwrpasol, gan adeiladu cymuned arbenigedd gref. Mae'r gronfa symudedd a'r tîm yn helpu'r cysylltiadau a'r prosiectau i barhau ac yn annog cynlluniau datrys problemau rhisomatig sy'n deillio o'r cydweithredu cychwynnol.

Trafodwyd model y Tair A gyda'r tîm. Cafodd ei ddatblygu a'i ehangu'n ddiweddarach i gyfleu Asedau (Assests), Ar y cyd (Associate), ac At ei gilydd (Assemble) i gyd-fynd yn well â phwrpas Catalydd Govan Old.

## Catalydd Govan Old

Cynhaliwyd y gweithdai ar y cyd â'r Athro Stephen Driscoll ac roeddent yn cynnwys amrywiaeth o academyddion a rhanddeiliaid. Cyn hynny, roedd gweithdai Catalydd wedi cael eu cynnal yn y Ganolfan Ymchwil Uwch (ARC) ym Mhrifysgol Glasgow. O ystyried ethos Catalydd o ddod ag ymchwil allan o'r byd academaidd, a natur glir y catalydd hwn oedd yn rhoi pwyslais ar le, penderfynwyd cynnal y gweithdy yn Govan Old a helpodd fy rôl fel CIP i gyflwyno'r achos dros wneud hynny y tu allan i'r Brifysgol.



GOVAN STONES GLASGOW

O ran Catalydd Govan Old, roedd y cysyniad o 'Dyfodol Bach" a "Dyfodol Mawr' yn ein helpu i greu cysyniad ynghylch deinameg datblygu cymunedol a gwarchod treftadaeth yn Govan Old. Mae "Dyfodol Bach" yn cyfeirio at naratifau ac ymyriadau lleol ar raddfa fach sy'n canolbwyntio ar anghenion lleol uniongyrchol, gweithredol a phenodol. I'r gwrthwyneb, mae "Dyfodol Mawr" yn cwmpasu newidiadau strwythurol cyffredinol sy'n fwy eang a phellgyrhaeddol; efallai eu bod yn ymddangos yn hegemonaidd neu'n ddigyfnewid. Mae'r cyferbyniad hwn yn amlygu sut mae gwahanol randdeiliaid yn llunio ac yn creu'r dyfodol, gan gynnwys y cyhoedd, cyfranogwyr, ymarferwyr ac academyddion ym myd y celfyddydau a'r dyniaethau.

Wrth gymhwyso'r theori hon i Govan Old, roeddwn am ysgogi cyfranogwyr i feddwl am ddyfodol o wahanol raddfa, gan gwmpasu amser, buddsoddiad a phobl. Roedd y dull hwn yn annog cyfranogwyr i weld sut yr oedd y graddfeydd hyn yn rhyngweithio â'i gilydd, yn gwrthdaro â'i gilydd neu'n ategu ei gilydd.

### Gweithdy 1: Asedau

Roedd y cam cychwynnol hwn yn canolbwyntio ar ddisgrifio'r asedau, y rhwydweithiau a'r perthnasoedd presennol o fewn Govan Old a'i bartneriaid. Aeth cyfranogwyr ati'n drylwyr i fapio'r asedau, y rhwydweithiau a'r perthnasoedd presennol. Dangosodd yr ymarfer hwn yr adnoddau amrywiol y mae Govan Old wedi'u casglu dros amser. Fe wnaethom nodi asedau canolog, syniadau, a pherthnasoedd rhyngol.

Nesaf, symudodd y ffocws at ragweld y dyfodol. Cafodd cyfranogwyr eu tywys drwy gyfres o gwestiynau i ddarlunio 'Dyfodol Bach' a 'Dyfodol Mawr': Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol ('Gyda phwy?'), pwy yw'r buddiolwyr ('Ar gyfer pwy?'), pa adnoddau ac offer sydd ar gael ('Gyda beth?'), a beth yw'r nodau yn y pen draw ('Ar gyfer beth?').

Roedd y cam olaf yn cynnwys canfod cyfleoedd a thensiynau rhwng pob dyfodol. Edrychodd y cyfranogwyr ar sut y gallai'r gwahanol fathau o ddyfodol wrthdaro â'i gilydd,

cyferbynnu â’i gilydd neu ychwanegu at ei gilydd. Buom yn trafod sut y gall gweledigaethau Govan Old yn y dyfodol lywio ac integreiddio’r synergeddau a’r gwrthdaro hyn.



*Gweithdy’r Cam Asedau © Gaston Welisch*

**Gweithdy 2: Ar y cyd**

Yn yr ail gam, rhannwyd y weledigaeth ar gyfer Dyfodol Govan Old gyda rhwydwaith ehangach o randdeiliaid. Nod yr ail weithdy oedd cysylltu’r asedau, y perthnasoedd a’r syniadau ar gyfer y dyfodol a oedd wedi'u mapio a’u cyd-greu ar gyfer Govan Old o Gatalydd Govan Old 1, a hynny gydag arbenigwyr academaidd a rhanddeiliaid gwadd ehangach drwy gyd-greu. Gwnaethom hyn drwy ddangos Govan Old am y tro cyntaf drwy daith, yna rhannu’r asedau wedi’u mapio a’r weledigaeth ar gyfer y dyfodol a gyflwynwyd drwy’r themâu a nodwyd. Yna, fe wnaethom ofyn i bob cyfranogwr gyflwyno eu hunain a rhoi trosolwg byr o’u gwaith mewn cyflwyniadau munud o hyd. Roedd y cyflwyniad cyflym hwn yn helpu i sefydlu meysydd cyffredin a meysydd o ddiddordeb ymysg y rhai a oedd yn bresennol.

Trefnwyd y cyfranogwyr yn bedwar bwrdd i gynrychioli’r pedair thema ar gyfer dyfodol Govan Old a nodwyd yng Ngweithdy 1 (Treftadaeth, Cymuned, Twristiaeth ac Adfywio Lle) yn ôl eu dewis. Yna rhoddwyd adnoddau ‘rhannu’r dyfodol’ iddynt i gefnogi trafodaeth grŵp a chynnig cysylltiadau tuag at ‘ddyfodol a rennir’ y byddent yn gallu ei greu gyda Govan Old a’i gilydd. Cynhaliwyd hyn dros ddwy rownd, gan alluogi cyfranogwyr i gysylltu dros ddwy o’r pedair thema.

Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

Yna, cynhaliwyd sesiwn lawn i grynhoi a mapio'r dyfodol cyffredin ar fap asedau gwreiddiol Govan Old i ddangos sut byddent yn cyfoethogi neu ddatblygu bob thema. Prif ganlyniad "Ar y cyd" fu mireinio themâu dyfodol Govan Old yn friffiau neu alwadau am gydweithio i fframio ein Catalydd terfynol ar gyfer Govan Old: At ei gilydd.



*Gweithdy'r Cam At ei gilydd © Gaston Welisch*

**Gweithdy 3: At ei gilydd**

Nod y trydydd Gweithdy, a'r un olaf – At ei gilydd – oedd cyfuno'r casgliad o syniadau ar gyfer dyfodol Govan Old a dewis y rhai mwyaf ffafriol. Roedd y broses yn canolbwyntio ar ddatblygu syniadau a phrosiectau rhwng cyfranogwyr.

Cafodd y cyfranogwyr eu grwpio yn ôl briffiau Govan Old a nodwyd yn dilyn y ddau weithdy cyntaf (Anghenion Cymunedol, Hyb Addysg, Straeon, Asedau a Phrofiadau Treftadaeth, a Seilwaith). Bu'r grwpiau'n cyd-ddylunio cynigion ar gyfer y prosiect, gan ddefnyddio templedi i ddisgrifio nodau, asedau, rhanddeiliaid, camau gweithredu a chanlyniadau'r prosiect. Dechreuodd y sesiwn gyda gair o groeso a chyflwyniad i'r grŵp, cyn y rownd *Darganfod a Diffinio,* lle defnyddiodd y cyfranogwyr ddiemwnt dwbl y Cyngor Dylunio i nodi a diffinio'r heriau a'r cyfleoedd yn eu briffiau, gan greu naratif ffisegol gyda blociau lliw 3D.

Yna cafwyd cyflwyniadau byr, a oedd yn caniatáu i grwpiau gyflwyno eu briffiau prosiect a oedd wedi cael eu rhoi *at ei gilydd*. Ar ôl egwyl, roedd y rownd *Datblygu a Darparu* yn ymhelaethu ar y briffiau hyn gan ddefnyddio Map Arloesi i ddarlunio cynllun gweithredu terfynol, a rhoi manylion y perthnasoedd allweddol, y canlyniadau a'r camau gweithredu. Oherwydd prinder lleisiau heb fod yn academaidd – lleisiau Govan – penderfynwyd y dylai'r sesiwn ddod i ben gyda chyflwyniadau o themâu a thrafodaethau mwy penagored, gan arwain at drafodaeth i roi blaenoriaeth i gynnwys y gymuned wrth benderfynu ar y camau nesaf.

## Teithiau Cerdded Dérive

Defnyddiwyd dulliau ymchwil seiliedig ar leoedd a oedd yn newydd i'r Catalydd hwn er mwyn deall ac ymwneud yn well â chyd-destun Govan. Y prif nod oedd gwreiddio'r ymchwil mewn profiadau gofodol perthnasol. Cafodd 'Dérives', fel y'i cyflwynwyd gan y Situationist International, eu treialu, gan alluogi cyfranogwyr i grwydro o amgylch eu hamgylchedd a chael eu harwain gan ymatebion emosiynol a synhwyraidd yn hytrach na llwybrau penodol a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

Casglwyd amrywiaeth o ddata ansoddol i lywio'r ymchwil, gan gynnwys nodiadau arsylwadol a myfyriol a recordiadau sain, yn ogystal â dogfennaeth ffotograffig o safleoedd allweddol, arteffactau, ac eiliadau arwyddocaol.



*Safle gwaith pont Partick-Govan a'r Amgueddfa Drafnidiaeth, i'w gweld o Gofan yn ystod taith gerdded gyda thîm Catalydd © Gaston Welisch*

Roedd y daith gyntaf yn ddefnyddiol er mwyn i'r tîm ddod i ddeall ardal Govan yn well, gan nad oedd pawb yn gyfarwydd â hi. Ymunodd yr Athro Stephen Driscoll â ni, gan rannu ei wybodaeth am y lle. Rhoddodd hyn ddealltwriaeth fwy profiadol i ni o'r cyd-destun, gan gynnwys gwybodaeth am y dreftadaeth adeiladu llongau, adeiladu pontydd, adnewyddu ffasâd y siopau, ac ardaloedd o amddifadedd. Roedd y daith hon yn help i angori'r gweithdai dilynol mewn rhywbeth diriaethol a gofodol.

Roedd yr ail dérive yn cynnwys cyfranogwyr Catalydd GO, yr archeolegydd Dr Megan Kasten a Chynllunydd Trefol, Govan Eamonn Campbell. Ymysg pynciau eraill, yn ystod ein taith, buom yn trafod arferion claddu hanesyddol, gan nodi sut oedd beddi hŷn yn cael eu hailbwrpasu wrth i deuluoedd newydd symud i mewn a newid demograffeg yr ardal, yn ogystal â natur fywgraffyddol a datblygiadol mannau cymunedol.

**Yr un her ar y teithiau cerdded hyn oedd recriwtio cyfranogwyr ac mae prinder y niferoedd yn codi cwestiwn pwysig: ai fi wnaeth orfodi'r dull hwn o ymgysylltu, pan fyddai dulliau eraill wedi ennyn mwy o frwdfrydedd? A oedd fy nisgrifiad i o'r dull ymchwil yn aneglur? A oedd y dull yn anfwriadol yn creu risg o "esthetegeiddio" ardaloedd difreintiedig yn Ne Glasgow?**

Wrth edrych yn ôl a dysgu a myfyrio, efallai y byddai ymgysylltu â chyfranogwyr am y tro cyntaf ymlaen llaw, fel galwad sydyn neu drafodaeth wyneb yn wyneb, wedi rhoi'r gallu i mi feithrin perthynas â phobl a lleihau'r rhwystr mynediad. Byddai gwneud hyn ar y cam cynnar hwn hefyd wedi fy ngalluogi i gasglu gwybodaeth am y dull ymgysylltu y byddai pobl wedi'i ffafrio, a chaniatáu ar gyfer grŵp mwy amrywiol o gyfranogwyr.

# Canlyniadau a Newid

Mae rôl y CIP wedi helpu i gyflawni nodau IAA y brifysgol mewn pedwar maes allweddol:

1. **Cyfraniad at Ddull y Catalydd**
   Rhoddodd prosiect CIP y gallu i ymgyfuno gwybodaeth ddamcaniaethol a methodolegol i bob cam o'r broses o ddatblygu'r Catalydd. Cynhaliais sesiynau trafod a gweithdai gyda'r tîm, gan fyfyrio ar y syniadau a gafwyd, a cheisio eu hategu â fframweithiau damcaniaethol a chysyniadol.

2. **Datblygu Dulliau Dylunio**
   Roedd ymchwil CIP yn ei gwneud yn bosibl mabwysiadu a phrofi dulliau dylunio newydd i hwyluso rhyngweithio, o iaith weledol a dylunio gweithgareddau i ddadansoddi. Er enghraifft, treialwyd fframio perfformiadol ar gyfer rhan tri o weithdai'r Catalydd ('amdani' neu 'at ei gilydd'), gan ddefnyddio cyfatebiaeth oedd yn seiliedig ar strwythur naratif drama tair act. Roedd y dull hwn yn helpu cyfranogwyr i siapio eu meddyliau mewn ffordd oedd yn rhoi pwyslais ar weithredu, er mwyn goresgyn heriau wrth gynllunio camau gweithredu posibl mwy pendant. Ar ben hynny, roedd dulliau seiliedig ar le (e.e. dérives) yn galluogi tîm y Catalydd i ddeall Govan a Govan Old wrth gyflawni'r prosiect. Yn olaf, ysgogwyd diddordeb mewn cynnal dulliau ymgysylltu llai, mwy ystwyth, a elwir yn 'micro-gatalyddion', ochr yn ochr â'r prif weithdai, i gyrraedd demograffeg arall neu ganiatáu ymgysylltu yn y fan a'r lle.

3. **Cofnodi ac Adrodd**
   Cyfrannodd dyfarniad y CIP yn sylweddol at y dogfennau a'r adroddiadau ar y Catalyddion, gan wella prosesau adrodd straeon a dadansoddi syniadau allweddol i'w lledaenu. Roedd fy nhasgau'n cynnwys tynnu lluniau o weithdai, arsylwi deinameg rhyngweithio a hwyluso trafodaethau. Dyluniais hefyd gynllun a strwythur naratif yr adroddiadau mewn cydweithrediad â Dr Johnson. Mae'r adroddiadau hyn wedi bod yn hanfodol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhwydwaith am ddigwyddiadau, rhoi adborth, a rhannu gwybodaeth. Roeddent yn adnodd ar gyfer ymgysylltu parhaus, gan sicrhau bod gwerth a chynnydd y prosiect ar gael i'r holl gyfranogwyr a'r rhanddeiliaid.



4. **Rôl Barhaus Dylunydd yn y Tîm**
   Mae parhad rôl dylunydd yn nhîm y Catalydd yn dangos pa mor angenrheidiol a llwyddiannus yw arferion arloesi cymunedol. Mae'r adnewyddiad hwn yn dangos gwerth cynnal agwedd atblygol ac arloesol tuag at ymgysylltu â'r gymuned. Roedd rôl y CIP yn caniatáu i ni fod yn fwy myfyriol ynghylch ein prosesau a'n gwerthoedd sylfaenol, gan ein galluogi i ddadansoddi a gwella'n barhaus.

## Yr hyn a ddysgwyd o'r Gweithdy

Cyflwynir canlyniadau gweithdai'r Catalydd o amgylch Govan Old i ddangos effeithiau diriaethol y Catalydd – y cyfrannodd y CIP tuag atynt. Mae'r wybodaeth hon, a ddaeth i'r amlwg yn sgil ein hymyriadau creadigol, yn datgelu sut y roedd ein dulliau ymgysylltu yn galluogi cyfranogwyr i ymgysylltu â themâu allweddol fel Treftadaeth, Cymuned, Twristiaeth, ac Adfywio Lle.




*Asedau a Map o'r Dyfodol a wnaed yn y Gweithdy Catalydd Old Govan*

**Asedau**

- Roedd y cam Asedau yn nodi'r adnoddau presennol a'r dyfodol yn Govan Old a'r cyffiniau. Nodwyd bod y bont droed newydd sy'n cysylltu Govan â'r Amgueddfa Drafnidiaeth (sy'n denu 1.2 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn) a West End Glasgow yn ased sylweddol ar gyfer y dyfodol. Roedd y safbwynt hwn a oedd yn sôn am y dyfodol yn ysgogi cyfranogwyr i ragweld sut gallai seilwaith newydd drawsnewid deinameg twristiaeth Govan Old a dylanwadu ar ei safle strategol yng nghyd-destun diwylliannol ehangach Glasgow (gan gynnwys o fewn cylch twristiaeth Glasgow, cydweithio â chwmnïau bysiau, amgueddfeydd a rhaglenni diwylliannol)

- Roedd y trafodaethau yn ystod y cam hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd moneteiddio cynaliadwy. Drwy fframio'r asedau nid yn unig o ran eu gwerth presennol ond hefyd o ran eu potensial yn y dyfodol, a dysgu gwersi o safleoedd treftadaeth eraill, edrychodd y grŵp ar sut y gallai Govan Old ddatblygu'r hyn y mae'n ei gynnig i gynyddu refeniw twristiaeth.

**Ar y cyd**

- Roedd meddwl am y Dyfodol yn annog cyfranogwyr i ail-ddehongli pwyntiau gwerthu unigryw a allai wneud Govan Old yn unigryw ac yn wahanol i leoedd eraill. Datblygodd y syniad o 'necrodwristiaeth' – pwysleisio arwyddocâd hanesyddol y fynwent i ddenu pobl sy'n frwd dros dreftadaeth a hanes – fel enghraifft arbenigol ond arloesol. Drwy roi ystyr newydd i asedau presennol, gellir gweld potensial mewn pethau eraill yn dod i'r amlwg ar gyfer lleoedd.
- Gallai themâu allweddol fel tlodi bwyd ac ansicrwydd tai, a amlygwyd ar y pwynt hwn, fod wedi dylanwadu'n fwy uniongyrchol ar gyfeiriad y Catalydd pe bai wedi dod i'r amlwg yn gynt.
- Mynegodd y rhanddeiliaid weledigaeth ar y cyd ar gyfer y Dyfodol, gan sefydlu Govan Old fel safle treftadaeth lleol, canolfan addysgol a gofod dinesig. Y weledigaeth ehangach hon yw man cychwyn achos cadarn am gymorth, sy'n angenrheidiol i ddenu'r buddsoddiad sylweddol sydd ei angen ar gyfer y targedau trawsnewidiol hyn.

**At ei gilydd**

- Roedd y broses o adeiladu naratif gyda blociau 3D yn galluogi cyfranogwyr i greu darlun o gynlluniau a'u blaenoriaethu. Nodwyd bod gan straeon lleol botensial i lunio dyfodol Govan Old. Cynigiwyd y dylai'r naratifau hyn gael eu casglu, eu cadw a'u rhannu gan y rheini sydd â chysylltiad uniongyrchol â nhw, gyda phwyslais cryf ar gynnwys y gymuned, a defnyddio archifau presennol, asedau cymunedol a hanesion llafar.
- Roedd y cam hwn yn atgyfnerthu'r angen am arweinyddiaeth leol wrth asesu, dilysu a gyrru'r cynlluniau a ddaeth i'r amlwg o'r gweithdai yn eu blaen. Bu'r cyfranogwyr yn ystyried pa gamau yr oedd angen eu cymryd ond hefyd pwy ddylai fod yn gyfrifol amdanynt. Drwy roi pwyslais ar arweinyddiaeth gan sefydliadau Govan, fel Govan Workspace, GalGael, a Fairfield, roedd y trafodaethau'n tynnu sylw at bwysigrwydd gwreiddio'r prosiect yn y gymuned i sicrhau ei gynaliadwyedd yn y tymor hir.

Roedd model y Tair A yn galluogi newid mewn dull gweithredu, o fapio cryfderau presennol i ddychmygu cyfleoedd a dyfodol posibl i Govan Old. Rhoddodd y cyfranogwyr gyfyngiadau presennol i'r naill ochr er mwyn gallu archwilio syniadau a oedd yn rhoi pwyslais ar y dyfodol. Roedd y dull hwn, sydd wedi'i wreiddio yn hanes yr ardal fel sylfaen ar gyfer defnydd yn y dyfodol, yn cydnabod yr heriau presennol ond eto'n nodi llwybrau ar gyfer twf ar yr un pryd.

## Datblygiadau ar gyfer y Dyfodol

Nod Catalydd GO oedd addasu proses ehangach y Catalydd drwy ymgysylltu â'r cyd-destun lleol gan ddefnyddio rhanddeiliaid perthnasol allweddol yn hytrach nag aelodau'r gymuned yn uniongyrchol. Dangosodd cyfranogiad sefydliadau fel Govan Workspace a Gal Gael ymdrech wirioneddol i gynnwys lleisiau'r gymuned. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r gweithdai yn dangos cyfle ac uchelgais sylweddol i ymgysylltu'n ddyfnach gydag aelodau o gymuned Govan.

**Roedd y newid o ymgysylltu â chymunedau arbenigedd yn y tri Chatalydd cyntaf i gyd-destun seiliedig ar le yn galw am ddulliau newydd o fynd at randdeiliaid ac ymgysylltu â nhw, gan ddod â sgiliau a theimladau newydd i'r amlwg. Mae'r newid hwn hefyd yn adlewyrchu'r her ehangach o gael cyd-ddealltwriaeth gyd-destunol, sy'n angenrheidiol i sicrhau gwell cysondeb rhwng safbwyntiau allanol a'r hyn y gall datblygu lle ei olygu mewn cyd-destun diwylliannol gwahanol.**

Mae'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer ein gwaith ymgysylltu yn gyfle i fyfyrio, o ystyried cyd-destun sensitif Govan a'r tensiynau economaidd-gymdeithasol o'i gwmpas – sy'n cael ei nodweddu gan dlodi, diweithdra, a'r buddsoddiad GRID, sy'n sensitif ar adegau. Mae cwestiwn i'w ystyried cyfranogiad cyfyngedig y gymuned mewn prosiectau cyfnewid gwybodaeth seiliedig ar leoedd yn y dyfodol: cyfranogiad cyfyngedig trigolion Govan – dim ond dau oedd yn bresennol yn y cyntaf, tri yn yr ail, ac un yn y trydydd. Roedd cyfranogwyr academaidd a rhai nad oeddent yn lleol wedi pwysleisio bod y gymuned leol wrth wraidd eu ffordd o feddwl. Pe bai mwy o gyfranogwyr lleol, oedd â gwybodaeth am brofiad trigolion, wedi bod yn bresennol, gallai hynny fod wedi symud ffocws ein trafodaethau (fel y mae'r gwahanol bwyntiau a godwyd gan drigolion Govan yn yr ail weithdy yn ei ddangos).

Cafwyd syniadau cyfoethog a gwerthfawr yn y gweithdai, ac mae potensial o hyd i archwilio a dilysu'r canfyddiadau hyn ymhellach gyda thrigolion lleol. Yn y gweithdai, agorodd y cyfranogwyr lwybrau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol i ddyfnhau cyfranogiad y gymuned – roeddent yn benderfynol o sicrhau bod canlyniadau'r prosiect yn taro tant yn fwy uniongyrchol gyda phoblogaeth Govan.

# Argymhellion

**Llwyddodd y newid ym mhrosiect y Catalydd i gyd-destun Govan-Old fel lleoliad, i gyflawni ei nodau gwreiddiol o greu cysylltiadau ystyrlon, mapio asedau lleol, a braenaru'r tir ar gyfer cyfleoedd i gael ymyriadau yn y dyfodol.**



Roedd fy ymchwil fel CIP yn mynd i'r afael â'i dri phrif nod, gan ddarparu syniadau a chyfleoedd ar gyfer datblygu yn y dyfodol:

**Asesu a damcaniaethu strwythur a dulliau'r Catalydd:**
Galluogodd y CIP y gwaith o ddamcaniaethu ac addasu'r Model Tair A mewn cyd-destun seiliedig ar leoedd. Drwy waith dadansoddi atblygol, daeth pedwar llwybr 'r' cysylltiedig i'r amlwg wrth drosglwyddo Model y Catalydd i Govan Old. Mae'r llwybrau hyn yn darparu fframwaith ar gyfer deall a datblygu ymyriadau diwylliannol, gyda ffocws yma ar ddysgu wrth addasu hyn ar gyfer cyd-destunau sy'n seiliedig ar leoedd, fel Govan Old. Daw'r argymhellion a amlinellir yn yr astudiaeth achos hon o safbwynt dylunio, gyda'r nod o archwilio sut y gallai gweithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth sy'n cael eu gyrru'n broffesiynol daro tant yn fwy uniongyrchol â chyd-destunau sy'n seiliedig ar leoedd. Dylid cydnabod nad oedd y dull hwn yn un o nodau gwreiddiol Catalydd Govan Old ac y byddai'n her i'w weithredu'n llawn.

**Cyflwyno a threialu adnoddau creadigol:**
Cyflwynwyd gwaith fframio'r dyfodol a theithiau cerdded (dérives) fel dulliau creadigol a oedd yn galluogi cyfranogwyr i lunio a thrafod prosiectau ystyrlon ar gyfer Govan Old a'i gysylltiadau posibl â'r gymuned. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn betrus yn ystod trafodaethau pan nad oedd aelodau o'r gymuned yn bresennol. Er nad yw ymgysylltu uniongyrchol â'r gymuned fel arfer yn rhan o broses Catalydd, mae'r sylw hwn yn codi cwestiynau am fanteision ymgorffori safbwyntiau cymunedol ychwanegol mewn cyd-destunau sy'n seiliedig ar leoedd. Roedd dull dérive yn mynd i'r afael â hyn yn rhannol drwy roi cyfle i dîm y Catalydd gael blas ar Govan, ac roedd prosiectau a gynigiwyd yn amlwg yn pwysleisio gweithio gydag aelodau'r gymuned. Yn y dyfodol, gellid ystyried ehangu dulliau fel y dérive yn gynharach i gefnogi'r dasg o feithrin perthynas â sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r gymuned, gan arwain at fwy o fewnbwn a dealltwriaeth o gyd-destunau sy'n seiliedig ar leoedd.

**Cyd-ddatblygu Catalydd newydd a oedd yn rhoi pwyslais ar le:**
Agorodd y prosiect ystyriaethau ar gyfer sut y gallai model y Catalydd ymgorffori cysylltiadau a syniadau sy'n seiliedig ar le. Datgelodd hyn y potensial ar gyfer esblygu'r fframwaith presennol, gan ddod ag egwyddorion, methodolegau a sensitifrwydd newydd i'r wyneb, a amlinellir yn yr argymhellion isod.

Gan adeiladu ar y nodau hyn, mae'r argymhellion canlynol - a drefnwyd o dan y Model Tair A a'r pedwar llwybr perthynol 'r' -

yn seiliedig ar fy nghofnodion i o broses y Catalydd, ymarfer atblygol fel cyfrannwr i'r Catalydd, yn ogystal â'r cyfweliadau a recordiwyd gyda thîm y Catalydd a chyfranogwyr. Nod yr awgrymiadau hyn yw ychwanegu at brosiectau yn y dyfodol a chynnig mewnwelediad i Gymunedau Creadigol eraill sydd am fabwysiadu dulliau tebyg.

**Cwmpasu ar sail lleoliad**
Gallai ehangu'r gwaith cwmpasu o'r dechrau i gynnwys mwy o weithwyr proffesiynol sy'n lleol i'r cyd-destun, a'r rheini sy'n gallu hyrwyddo grwpiau sydd ddim yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, gyfoethogi gwaith fframio seiliedig ar leoedd y prosiect. Gallai dulliau sy'n cael eu harwain gan ddyluniad yn y cam cynharach hwn gasglu lleisiau a safbwyntiau'r gymuned, neu hyd yn oed recriwtio cyfranogwyr ychwanegol, ar gyfer y Catalydd. Ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, byddai datblygu dealltwriaeth a chysylltiadau posibl â grwpiau cymunedol o'r dechrau yn helpu i ganfod cyfranogwyr addas a sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried.

**Amlygrwydd Proses Dewis Thema'r Catalydd**
Er mwyn sicrhau bod Prifysgol Glasgow yn gallu cefnogi canlyniadau'r Catalydd yn effeithiol, dewiswyd pynciau'r gorffennol yn hewristig i gyd-fynd â chryfderau a diddordebau academaidd arwyddocaol Coleg y Celfyddydau. Datblygwyd Catalydd Govan Old, fel cyd-destun sy'n seiliedig ar leoedd, o gysylltiadau presennol (Yr Athro Driscoll) o fewn cryfderau ymchwil presennol. Mae hyn yn codi'r ystyriaeth ar gyfer Catalyddion sy'n seiliedig ar le yn y dyfodol – a fydd cysylltiadau o'r fath yn parhau i fod yn brif sbardun i gychwyn arni, neu a allai lleoedd eraill fynd ati a chynnig/defnyddio proses Catalydd yn y dyfodol, gan agor cysylltiadau newydd a chryfderau ymchwil yn y Brifysgol. Ochr yn ochr â dulliau presennol, gallai trafodaeth ddatblygu fel proses wedi'i chynllunio'n benodol o fewn y Catalydd, gan ddarparu sianel deg i actorion heb fod yn academaidd awgrymu a llywio themâu yn y dyfodol yn seiliedig ar anghenion sy'n dod i'r amlwg yn y sector.

**Iawndal Teg**
Pe bai'r Catalydd yn hybu cyfranogiad ehangach a mwy amrywiol gan randdeiliaid traws-sector, dylem gynnig iawndal teg. Mae'r mecanweithiau presennol i hwyluso cyfranogiad, fel darparu lluniaeth a byrbrydau, ac ad-dalu costau teithio yn ôl y gofyn, yn gynlluniau gwych i wella cydraddoldeb cyfranogiad y mae angen adeiladu arno.



**Mapio Cychwynnol**
Mae proses y Catalydd yn naturiol yn tynnu sylw at brosiectau sy'n bodoli eisoes drwy'r wybodaeth a rennir gan y rhwydweithiau sy'n dod at ei gilydd. Mewn gweithdai blaenorol, cafwyd galwadau cyson i sicrhau cyllid ar gyfer mapio'r prosiectau, yr asedau a'r actorion hyn yn drylwyr. Mae'n werth ystyried sut y gallai rhywfaint o waith mapio cychwynnol ysgafnach – drwy deithiau cerdded, trafodaethau a gwaith maes creadigol – ddarparu gwerth uniongyrchol i gyfranogwyr mewn gweithdai cynnar, fel sylfaen gadarn ar gyfer cydweithio.

Gyda lens dylunio, byddai'n werth ailedrych ar ddulliau a ddefnyddiwyd mewn prosiectau Catalydd yn y gorffennol,

gan gofio profiadau'r gorffennol lle rhoddwyd cynnig ar ddulliau a pham y cawsant eu disodli yn y pen draw. Gallai dull mapio cychwynnol ein helpu i osgoi ailadrodd a lleihau'r risg o flinder mewn cyfranogiad, sy'n gallu arwain at amharodrwydd i ymgysylltu â gweithgareddau Sefydliadau Addysg Uwch.

**Myfyrio ar ddulliau seiliedig ar asedau**

Cyflwynodd y lens Dylunio ddulliau seiliedig ar asedau yn ystod y camau Ar y cyd ac At ei gilydd. Er bod y dulliau hyn yn werthfawr, mae'n bwysig ystyried eu cyfyngiadau posibl, yn enwedig mewn cyd-destunau lle mae llai o adnoddau, mewn achosion pan fydd angen gwaith hanfodol o hyd. Mae ymarferwyr wedi nodi y gallai'r dulliau hyn arwain at berygl o atal gyrwyr strwythurol anghydraddoldeb a hybu unigoleiddio a marchnadeiddio (Roy, 2017). Nid yw hyn yn lleihau eu gwerth: mae'n rhoi cyfle i fireinio ein dulliau dylunio ymhellach.

**Cyfnewid Gwybodaeth mewn ffordd sy'n Fwy Cynhwysol ac yn Canolbwyntio ar Weithredu**

Mae'r Catalydd yn gweithredu o fewn cymunedau o ymarfer ac arbenigedd lle gall egwyddorion o Ymchwil Gyfranogol yn y Gymuned (CBPR) ac Ymchwil Gweithredu Cyfranogol (PAR) gynnig mewnwelediad gwerthfawr i ategu ein dull seiliedig ar asedau. Mae CBPR yn hyrwyddo cyfranogiad gweithredol rhanddeiliaid ar bob cam, o ddiffinio'r cwestiynau allweddol i ddehongli'r canlyniadau. Mae PAR yn rhoi pwyslais ar ymchwilio ar y cyd sy'n seiliedig ar brofiad a hanes cymdeithasol, gan wneud ymyriadau arfaethedig yn fwy perthnasol fel bod modd gweithredu arnynt. Gallai addasu a dysgu o'r fframweithiau hyn ein helpu i gydbwyso cryfderau dulliau seiliedig ar asedau â chyfnewid gwybodaeth ehangach, mwy cynhwysol sy'n canolbwyntio ar weithredu. Byddai'r asiantaeth ddosranedig hon hefyd yn caniatáu i ni fynd ati i ddadadeiladu a defnyddio syniadau a thrafodaethau polisïau (Roy, 2017) er mwyn mynd i'r afael yn well ag anghydraddoldebau.

**Dehongli a mynd Amdani: Beth sy'n digwydd nawr?**

Mae'r broses o ddehongli a hidlo canlyniadau drwy hwyluswyr yn cynnig llwybr ar gyfer archwilio dulliau dadansoddi a throsi mwy cydweithredol. Er bod ein themâu a'r argymhellion sydd ddim yn ein rhwymo wedi bod yn werthfawr a'u bod yn cyd-fynd â'n dull gweithredu, mae potensial i gryfhau effaith y prosiect drwy ddatblygu mecanweithiau dan arweiniad sy'n trosi cyfraniadau cyfranogwyr yn ganlyniadau diriaethol. Er bod yr adnoddau creadigol presennol, fel defnyddio'r syniad o ddrama i ffurfio prosiect, wedi helpu i siapio syniadau yn gamau gweithredu, mae her o hyd o ran pontio'r bwlch i gysylltu cyfranogwyr â chyfleoedd byw a chyllid. Byddai gwella'r mynegiannau hyn yn cryfhau effaith a pherthnasedd y prosiect ymhellach i'r cymunedau sy'n cymryd rhan mewn catalyddion dilynol.

**Y tu hwnt i'r Tair A**

Byddai gwella gweledwedd ymgysylltu tymor hir yn rhoi eglurder i ddisgwyliadau cyfranogwyr ac yn dangos cwmpas llawn proses y Catalydd y tu hwnt i'r Tair A. Pa ddulliau strwythuredig allai gryfhau'r gwaith o feithrin perthynas ymhellach y tu hwnt i'r digwyddiadau? Beth yw gwaddol proses y Catalydd sy'n wynebu'r cyhoedd – a allai dogfennau, er enghraifft, helpu i gynhyrchu allbynnau cyhoeddus (yn ogystal â'r cylchlythyr a'r blog presennol)? Byddai adeiladu ar ddulliau tymor hir y tu hwnt i'r fformat tri gweithdy (fel y sesiynau cyd-werthuso sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd a'r prosiectau sy'n cael eu hariannu) yn elwa o ddulliau creadigol o feithrin perthynas sy'n seiliedig ar ddylunio. Byddai'r mesurau hyn yn sicrhau bod y Catalydd yn parhau i feithrin ymddiriedaeth a chyfranogiad parhaus.

# Casgliad

Mae gwaith ymchwil CIP wedi darparu fframwaith cadarn ar gyfer datblygu ymchwil gydweithredol drwy ddylunio drwy ymgysylltu â'r gymuned. Roedd fy rôl fel CIP yn canolbwyntio ar y canlynol: Cyfrannu at fodel damcaniaethol y Catalydd – datblygu Dulliau Dylunio newydd – a chofnodi ac adrodd yn ôl. Roedd gwaith y CIP yn galluogi integreiddio gwybodaeth ddamcaniaethol a methodolegau ymarferol i fodel y Catalydd. Mae'r rhain wedi ehangu ein dull IAA ar gyfer ymchwil a datblygu cymunedol a chyd-greu.

**Fe wnaeth dyfarniad CIP fy ngalluogi i a fy nhîm i greu amgylchedd cydweithredol lle gallai cyfranogwyr amrywiol archwilio cyfleoedd i ddefnyddio dulliau creadigol i fynd i'r afael â heriau. Cyd-ddatblygwyd y Model Tair A a defnyddiwyd dulliau ymchwil seiliedig ar le, fel dérives, er mwyn seilio ein hymchwil ar brofiadau gofodol y gymuned yn Govan. Roedd y dulliau hyn yn hwyluso'r gwaith o nodi asedau allweddol, cyd-greu gweledigaethau ar gyfer y dyfodol, a datblygu strategaethau y gellir gweithredu arnynt sydd wedi'u teilwra i anghenion y sectorau a nodwyd.**

Mae ein hymdrechion cydweithredol wedi arwain at nifer o ganlyniadau pendant, gan gynnwys gwell strategaethau ymgysylltu cymunedol, gwell prosesau dogfennu ac phartneriaethau newydd. Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu gwerth model y adrodd, a chreu rhwydweithiau a Catalydd wrth bontio'r bwlch rhwng ymchwil a'r byd y tu allan i'r byd academaidd.

**Fe wnaeth prosiect CIP hefyd fy ngalluogi i ddysgu a thyfu fel ymchwilydd. Cefais gyfle i feithrin sgiliau gwerthfawr fel hwyluso, cyd-greu, a dadansoddi atblygol, ac fe wnes i ddyfnhau fy nealltwriaeth o ddulliau ymchwil sy'n seiliedig ar leoedd. Bydd y syniadau a'r perthnasoedd a ddatblygwyd drwy'r prosiect hwn yn llywio fy ngwaith a'm datblygiad proffesiynol yn y dyfodol fel ymchwilydd, yn enwedig wrth fabwysiadu dulliau mwy cynhwysol a chyfranogol o ymdrin ag arloesedd cymunedol yn fy ngwaith ymchwil a datblygu.**

Gan edrych tua'r dyfodol, wrth ddelio â chyd-destunau sy'n seiliedig ar leoedd, rwy'n argymell symud dulliau o integreiddio lleisiau cymunedol i gamau cychwynnol y gwaith o gynllunio prosiectau, gan fyfyrio'n fethodolegol ar sut mae'r integreiddio hwn yn cael ei gyflawni a rhoi pwyslais parhaus ar ymgysylltu a gwaith dilynol yn y tymor hir. Bydd y camau hyn yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn y dyfodol yn parhau i fod o fudd i'r cymunedau a'r sectorau dan sylw ac yn parhau i gyflawni nodau ac ethos gwreiddiol menter y Catalydd.

Gwybodaeth Bellach:

I gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau Creadigol AHRC ewch I www.creativecommunities.uk

Cysylltwch â'r CIP:

Gaston Welisch, Prifysgol Glasgow & Ysgol Gelf Glasgow | gastonwelisch@gmail.com

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y DU (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) ac fe'i cynhelir ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.

Creative Communities | UKRI Arts and Humanities Research Council | Northumbria University NEWCASTLE